OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 307 (Cy.26)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud - -	*6 Chwefror 2007*
Yn dod i rym - -	*1 Gorffennaf 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 26(1), (2), (2A) a (2B), 59(4)(a) a (5) a 104(1) a (4) o Ddeddf Plant 1989(**1**) a pharagraffau 10(1) a (2)(l) o Atodlen 6 iddi yn gwneud y rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2007.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "yr ardal y mae'r plentyn yn preswylio ynddi fel arfer" ("*the area in which the child is ordinarily resident*") yw ardal yr awdurdod lleol lle mae cartref y plentyn;

ystyr "awdurdod cyfrifol" ("*responsible authority*") yw—

(a) mewn perthynas â lleoliad gan awdurdod lleol (gan gynnwys un pan fo'r plentyn yn cael llety a chynhaliaeth mewn cartref gwirfoddol neu gartref preifat i blant), yw'r awdurdod lleol sy'n lleoli'r plentyn,

(b) mewn perthynas â lleoliad gan sefydliad gwirfoddol o blentyn nad yw'n derbyn gofal awdurdod lleol, y sefydliad gwirfoddol sy'n lleoli'r plentyn, ac

(c) mewn perthynas â lleoliad mewn cartref preifat i blant o blentyn nad yw naill ai'n derbyn gofal awdurdod lleol nac wedi'i letya mewn cartref o'r fath gan sefydliad gwirfoddol, y person sy'n rhedeg y cartref;

ystyr "y Ddeddf ("*the Act*") yw Deddf Plant 1989;

ystyr "gweithiwr dolen gyswllt" ("*link worker*") yw aelod o staff cartref i blant a benodwyd yn unol â Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002(**2**) gyda chyfrifoldeb penodol dros ddiogelu

(**1**) 1989 p.41. Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol. O ran Cymru mae'r swyddogaethau wedi cael eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672 a'r cofnod ar gyfer Deddf 1989 Act yn Atodlen 1 iddo a chan adran 145(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Diwygiwyd adran 26 gan adran 118 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant Act 2002 p.38.

(**2**) Rheoliadau Cartrefi Plant (Cymru) 2002 (O.S.2002/327 (Cy.40)). Mewnosodwyd y gofyniad i benodi "link worker" yn rheoliad 11 o Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) gan reoliad 2(c) o Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygio) 2007 (2007/311 (Cy.28)).

a hybu iechyd a lles addysgol plentyn unigol a thros gydgysylltu â darparwyr addysg a gofal iechyd ar ran y plentyn hwnnw;

ystyr "nyrs gofrestredig" ("*registered nurse*") yw person a gofrestrwyd gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth(**3**);

ystyr "panel" ("*panel*") yw panel o gynrychiolwyr o'r asianteithiau hynny a all gynorthwyo awdurdod cyfrifol wrth gynllunio lleoliad plentyn ac wrth ddiwallu anghenion y plentyn hwnnw yn ystod cyfnod y lleoliad;

ystyr "wedi'i leoli i'w fabwysiadu" ("*placed for adoption*") yw wedi'i leoli yn unol â Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**4**) neu Ddeddf Mabwysiadu 1976(**5**);

ystyr "ymarferydd meddygol cofrestredig" ("*registered medical practitioner*") yw person cofrestredig cyflawn o fewn ystyr Deddf Feddygol 1983(**6**); ac

ystyr "ymwelydd annibynnol" ("*independent visitor*) yw ymwelydd annibynnol a benodir o dan baragraff 17 o Atodlen 2 i'r Ddeddf.

(3) Rhaid i unrhyw hysbysiad sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn gael ei roi'n ysgrifenedig a chaniateir ei anfon drwy'r post.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall —

(a) mae unrhyw gyfeiriad at reoliad â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn ac mae unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad at baragraff â Rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y rheoliad hwnnw;

(b) mae unrhyw gyfeiriad at Atodlen â Rhif yn gyfeiriad at yr Atodlen sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn.

(5) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dyletswydd i adolygu achosion plant

2. Rhaid i bob awdurdod cyfrifol adolygu yn unol â'r Rheoliadau hyn achos pob plentyn tra bydd yn derbyn gofal neu tra bydd llety yn cael ei ddarparu iddo.

Swyddogion adolygu annibynnol

3.—(1) Rhaid i bob awdurdod cyfrifol benodi person ("y swyddog adolygu annibynnol") ynglŷn â phob achos i gyflawni'r swyddogaethau canlynol—

(a) cymryd rhan yn adolygiad yr achos sydd o dan sylw;

(b) monitro perfformiad swyddogaethau'r awdurdod hwnnw o ran yr adolygiad;

(c) cyfeirio'r achos at Swyddog Achosion Teuluol ar gyfer Cymru neu at swyddog Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd os yw'r plentyn fel arfer yn preswylio yn Loegr os bydd y swyddog adolygu annibynnol yn ystyried bod hynny'n briodol.

(2) Rhaid bod gan y swyddog adolygu annibynnol brofiad sylweddol mewn gwaith cymdeithasol a rhaid i'r swyddog ddal Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol neu Radd mewn Gwaith Cymdeithasol neu gymhwyster cyfatebol sy'n cael ei gydnabod gan Gyngor Gofal Cymru(**7**).

(3) Rhaid bod y swyddog adolygu annibynnol wedi'i gofrestru'n weithiwr cymdeithasol mewn cofrestr a gedwir gan Gyngor Gofal Cymru neu gan y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol, o

(**3**) Sefydlwyd gan Orchymyn Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 O.S. 2002/253 a daeth i rym ar 12 Chwefror 2002.
(**4**) 2002 p.38.
(**5**) 1976 p.36.
(**6**) 1983 (p. 54).
(**7**) Sefydlwyd gan adran 44(1)(b) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 p.14.

dan adran 56 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**8**) neu mewn cofrestr gyfatebol a gedwir o dan gyfraith yr yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

(4) Os bydd swyddog adolygu annibynnol yn cyflawni swyddogaethau o dan y rheoliadau hyn yng Nghymru a'i fod wedi'i gofrestru'n weithiwr cymdeithasol mewn cofrestr heblaw un a gedwir gan Gyngor Gofal Cymru, rhaid iddo gofrestru'n weithiwr cymdeithasol gyda Chyngor Gofal Cymru am y cyfnod y bydd yn cyflawni'r swyddogaethau hynny.

(5) Os yw'r swyddog adolygu annibynnol yn gyflogai i'r awdurdod cyfrifol rhaid i swydd y swyddog adolygu annibynnol beidio â bod o dan reolaeth uniongyrchol—

(a) person sy'n ymwneud â rheolaeth yr achos;

(b) person sydd â chyfrifoldebau rheoli ynglŷn â pherson a grybwyllir yn is-baragraff (a); neu

(c) person sydd â rheolaeth dros yr adnoddau a ddyrennir i'r achos.

(6) Rhaid i'r swyddog adolygu annibynnol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol gadeirio unrhyw gyfarfod a gynhelir i ystyried achos y plentyn mewn cysylltiad ag adolygiad o'r achos hwnnw.

(7) Rhaid i'r swyddog adolygu annibynnol, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gymryd camau i sicrhau bod yr adolygiad yn cael ei gynnal yn unol â'r Rheoliadau hyn a sicrhau'n benodol—

(a) bod barn y plentyn yn cael ei deall a'i chymryd i ystyriaeth;

(b) bod y personau sy'n gyfrifol am weithredu unrhyw benderfyniad a wneir o ganlyniad i'r adolygiad yn cael eu dynodi; ac

(c) bod unrhyw fethiant i adolygu'r achos yn unol â'r Rheoliadau hyn neu unrhyw fethiant i gymryd camau priodol neu wneud neu gyflawni trefniadau yn unol â rheoliad 9 yn cael ei ddwyn i sylw personau sydd ar lefel ddigonol o gyfrifoldeb yn yr awdurdod cyfrifol.

(8) Yn achos plentyn sy'n dymuno cymryd camau cyfreithiol o dan y Ddeddf, er enghraifft er mwyn gwneud cais i'r llys am orchymyn cyswllt neu am ryddhad o orchymyn gofal, swyddogaeth y swyddog adolygu annibynnol yw—

(a) cynorthwyo'r plentyn i gael cyngor cyfreithiol; neu

(b) cadarnhau a oes oedolyn priodol sy'n gallu ac sy'n barod i roi'r cymorth hwnnw neu ddwyn achos cyfreithiol ar ran y plentyn.

Amser pan fo'n rhaid adolygu pob achos

4.—(1) Rhaid adolygu pob achos o fewn pedair wythnos ar ôl y dyddiad pan fydd y plentyn yn dechrau derbyn gofal gan yr awdurdod cyfrifol neu'n dechrau cael ei letya ganddo.

(2) Rhaid cyflawni'r ail adolygiad dim mwy na thri mis ar ôl yr adolygiad cyntaf ac wedyn rhaid cyflawni adolygiadau dilynol dim mwy na chwe mis ar ôl dyddiad yr adolygiad blaenorol.

(3) Nid oes dim byd yn y rheoliad hwn yn rhwystro'r awdurdod cyfrifol rhag adolygu'r achos cyn yr amser a bennir ym mharagraff (1) neu (2) ac, yn benodol, rhaid iddo wneud hynny os yw'r swyddog adolygu annibynnol yn cyfarwyddo hynny.

(4) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliad 12 (cymhwyso'r Rheoliadau i gyfnodau byr).

Y dull ar gyfer adolygu achosion

5.—(1) Rhaid i bob awdurdod cyfrifol gosod allan mewn ysgrifen ei drefniadau sy'n llywodraethu'r dull y bydd achos pob plentyn yn cael ei adolygu a rhaid iddo ddwyn y trefniadau ysgrifenedig i sylw'r rheini a bennir yn rheoliad 8(1).

(**8**) Deddf Safonau Gofal 2000 (p.14).

(2) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol y mae plentyn yn derbyn gofal ganddo neu sy'n darparu llety i blentyn wneud trefniadau i gydgysylltu cyflawni pob agwedd ar yr adolygiad o achos y plentyn hwnnw.

(3) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol benodi un o'i swyddogion i gynorthwyo'r awdurdod i gydgysylltu pob agwedd ar yr adolygiad.

(4) Rhaid i'r dull yr adolygir pob achos, i'r graddau y mae'n ymarferol, gynnwys yr elfennau a bennir yn Atodlen 1.

(5) Nid oes dim byd yn y Rheoliadau hyn ddylai rwystro cyflawni unrhyw adolygiad o dan y Rheoliadau hyn nac unrhyw adolygiad, asesiad neu ystyriaeth arall o dan unrhyw ddarpariaeth arall ar yr un pryd.

Ystyriaethau y mae awdurdodau cyfrifol i roi sylw iddynt

6. Yr ystyriaethau y mae awdurdod cyfrifol i roi sylw iddynt i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol wrth adolygu pob achos yw'r ystyriaethau cyffredinol a bennir yn Atodelen 2 a'r ystyriaethau ynghylch iechyd y plentyn a bennir yn Atodlen 3.

Adolygiadau iechyd

7.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), rhaid i'r awdurdod cyfrifol, o ran pob plentyn sy'n parhau i dderbyn gofal neu y darperir llety iddo ganddo, wneud trefniadau bod ymarferydd meddygol cofrestredig neu nyrs gofrestredig, yn cynnal asesiad, a all gynnwys archwiliad corfforol, o gyflwr iechyd y plentyn—

(a) o leiaf unwaith, ac yn amlach os bydd lles y plentyn yn gwneud hynny'n ofynnol, ym mhob cyfnod o chwe mis cyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed; ac

(b) o leiaf unwaith, ac yn amlach os bydd lles y plentyn yn gwneud hynny'n ofynnol, ym mhob cyfnod o ddeuddeng mis ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bump oed.

(2) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol ei gwneud yn ofynnol i'r person a gyflawnodd yr asesiad o dan baragraff (1) baratoi adroddiad ysgrifenedig sy'n ymdrin â'r materion a restrir yn Atodlen 3, gyda chyfeiriad penodol at gyflwr iechyd meddwl y plentyn.

(3) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol adolygu'r cynllun ar gyfer iechyd y plentyn yn y dyfodol a gafodd ei baratoi yn unol â rheoliad 8(1)(ch) o Reoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007(**9**) yn ôl y cyfnodau a bennir yn is-baragraffau (a) a (b) o baragraff (1).

(4) Mae'r cyfeiriad ym mharagraff (3) at gynllun ar gyfer iechyd y plentyn yn y dyfodol yn cynnwys cynllun a gafodd ei baratoi yn unol â rheoliad 7(1)(c) o Reoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991(**10**)

(5) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os yw'r plentyn, ac yntau'n deall digon i wneud hynny, yn gwrthod cydsynio i'r asesiad.

Ymgynghori, cymryd rhan a hysbysu

8.—(1) Cyn cynnal unrhyw adolygiad rhaid i'r awdurdod cyfrifol, os nad yw hynny'n rhesymol ymarferol, geisio barn a chymryd i ystyriaeth farn—

(a) y plentyn;

(b) ei rieni;

(c) unrhyw berson nad yw'n rhiant iddo ond sydd â chyfrifoldeb rhiant drosto;

(**9**) Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007 (O.S.2007/310 (Cy.27).

(**10**) Dirymwyd Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991 (O.S. 1991/890) ac ailddeddfwyd hwy o ran Cymru ar 1 Gorffennaf 2007 gan Reoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007 O.S. 2007/310 (Cy.27).

(ch) os cafodd y plentyn ei leoli mewn cartref plant, gweithiwr dolen gyswllt y plentyn; a

(d) unrhyw berson arall y mae'r awdurdod yn ystyried bod ei farn yn berthnasol;

gan gynnwys, yn benodol, farn y personau hynny o ran unrhyw fater penodol sydd i'w ystyried yn ystod yr adolygiad.

(2) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol gael y personau y gofynnir am eu barn o dan baragraff (1) i gymryd rhan yn yr adolygiad gan gynnwys, os yw'r awdurdod yn ystyried bod hynny'n briodol, presenoldeb y personau hynny mewn rhan o gyfarfod neu mewn cyfarfod cyfan sydd i ystyried achos unrhyw blentyn mewn cysylltiad ag unrhyw agwedd ar adolygiad yr achos hwnnw.

(3) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r canlynol o fanylion canlyniad yr adolygiad ac o unrhyw benderfyniad a wnaed ganddo yn sgil yr adolygiad—

(a) y plentyn;

(b) ei rieni;

(c) unrhyw berson nad yw'n rhiant iddo ond sydd â chyfrifoldeb rhiant drosto;

(ch) os cafodd y plentyn ei leoli mewn cartref plant, gweithiwr dolen gyswllt y plentyn; a

(d) unrhyw berson arall y mae'r awdurdod yn ystyried y dylid ei hysbysu.

Trefniadau ar gyfer gweithredu penderfyniadau sy'n deillio o'r adolygiadau a hysbysu'r swyddog adolygu annibynnol

9.—(1) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol wneud a chyflawni trefniadau eu hunain neu gyda phersonau eraill i weithredu unrhyw benderfyniad y mae'r awdurdod yn bwriadu ei wneud yn ystod adolygiad o achos plentyn neu o ganlyniad iddo.

(2) Rhaid i'r awdurdod cyfrifol hysbysu'r swyddog adolygu annibynnol —

(a) o unrhyw fethiant arwyddocaol i wneud neu gyflawni trefniadau yn unol â pharagraff (1); a

(b) o unrhyw newid arwyddocaol mewn amgylchiadau sy'n digwydd ar ôl yr adolygiad sy'n effeithio ar y trefniadau hynny.

Monitro trefniadau ar gyfer adolygiadau

10. Rhaid i bob awdurdod cyfrifol fonitro'r trefniadau a wnaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Cofnodi gwybodaeth am yr adolygiadau

11. Rhaid i bob awdurdod cyfrifol sicrhau bod—

(a) gwybodaeth a geir ynglŷn ag adolygiad achos plentyn; a

(b) manylion o'r trafodion mewn unrhyw gyfarfod a drefnwyd gan yr awdurdod yr ystyrir achos y plentyn ynddo mewn cysylltiad ag unrhyw agwedd ar adolygiad yr achos hwnnw; ac

(c) manylion o unrhyw benderfyniadau a wnaed yn ystod yr adolygiad neu o ganlyniad iddo;

yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig.

Cymhwyso'r Rheoliadau i gyfnodau byr

12.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i achosion y mae awdurdod cyfrifol wedi trefnu bod plentyn i dderbyn gofal neu bod llety yn cael ei ddarparu iddo am gyfres o gyfnodau byr yn yr un